

Mae rhai TRACIAU SAIN ffilm yn cynnwys SGORAU sydd wedi'u cyfansoddi'n arbennig, naill ai ar gyfer cerddorfa (e.e. cyfansoddwyr fel John Williams, Ennio Morricone) neu ganeuon sydd wedi'u hysgrifennu'n arbennig ar gyfer y ffilm (e.e. ffilmiau Disney). Mae ffilmiau eraill yn defnyddio cerddoriaeth sy'n bodoli eisoes e.e. caneuon poblogaidd o'r cyfnod/lleoliad lle mae'r ffilm yn digwydd.

LLINYNNAU

- Feiolin
- Sielo
- Fiola
- Bas dwbl
- Telyn

CHWYTHBRENNAU

- Ffliwt
- Clarinét
- Obo
- Basŵn
- Sacsoffon

PRES

- Trwmped
- Trombôn
- Corn Ffrengig
- Tiwba

ALLWEDDELLAU

- Piano
- Allweddellau electronig
- Harpsicord
- Organ

OFFERYNNAU TARO

- Drwm bas
- Drwm gwifrau
- Triongl
- Symbal
- Cit drymiau (heb ei diwnio)
- Timpani
- Glockenspiel
- Seiloffon (wedi'i diwnio)

ARALL

- Gitâr drydan
- Gitâr fas
- Gitâr Sbaenaidd/clasurol
- Offerynnau byd traddodiadol

Elfennau cerddorol

Mae cyfansoddwyr ffilm yn defnyddio'r **ELFENNAU CERDDOROL** (tempo, gweadedd, dymameg, ansawdd, cyweiredd, rhythm, alaw, harmoni) i greu naws ac awyrgylch er mwyn helpu i adrodd y stori a gwella'r digwyddiadau.

Er enghraifft:

Mewn **golygfa drist, fyfyrion**, gallai cyfansoddwr ddefnyddio tempo araf, cyweiredd lleiaf, dymameg feddal, legato, gweadedd homoffonig, nodau estynedig hir, ac alaw gysylltiol.

Gallai **golygfa erlid ceir gyffrous** mewn ffilm cyffro gael tempo cyflym, gweadedd prysur a pholyffonig, cordiau anghyseiniol, dymameg uchel, rhythmau trawsacennog, alaw ddigyswllt a riffiau byr.


Gallai golygfa lle mae'r **archarwr yn 'achub y dydd'** ddefnyddio cyweiredd mwyaf, ffanfferau pres, dymameg uchel, acenion, 4^{ydd}au a 5^{ed}au (cyfyngau).

Bydd cyfansoddwyr yn aml yn defnyddio **CYFERBYNIAU** i greu effaith (e.e. defnyddio amrywiaeth eang o draw o uchel iawn i isel iawn).

Cyfyngau

Mae cyfansoddwyr ffilm yn aml yn defnyddio cyfyngau i greu effaith benodol (e.e. mae 4^{ydd} perffaith sy'n codi yn swinio'n 'arwrol', a gall hanner tôn swinio'n 'fygythiol').

Cyfwng yw'r pellter rhwng dau nodyn.



Cyfwng sy'n codi: symud i fyny (esgynnol)

Cyfwng sy'n syrthio: symud i lawr (disgynnol)

Termau offerynnol penodol

Pizzicato	Plicio'r llinynnau.
Divisi	Dwy ran yn rhannu'r un llinell gerddorol.
Gwasgiad dwbl (double stopping)	Chwarae dau linyr ar yr un pryd.
Arco	Defnyddio bwa i chwarae offeryn â llinynnau.
Tremolo	Effaith 'crynu', sy'n symud yn gyflym ar yr un nodyn neu rhwng dau gord (e.e. defnyddio'r bwa yn gyflym iawn yn ôl ac ymlaen).
Tafodog	Techneg i wneud i'r nodau swinio fel eu bod nhw wedi gwahanu (chwythbrennau/pres).
Wedi'i lithro	Caiff nodau eu chwarae'n esmwyth.
Wedi mudo	Defnyddio mudydd i newid/gwlychu'r sain (pres/linynnau).
Bwrlwm drwm	Nodau/curiadau mewn olyniaeth gyflym iawn.
Glissando	Llithro yn gyflym iawn dros y nodau.
Tril	Newid yn gyflym rhwng dau nodyn.
Vibrato	Gwneud i'r nodau 'siglo' i fyny ac i lawr ar gyfer mynegiant.

Mae cyfansoddwyr hefyd yn defnyddio:

Thema	Y brif alaw.
Motiff	Syniad cerddorol byr (melodig neu rythmig).
Leitmotif	Syniad cerddorol cyson sy'n gysylltiedig â chymeriad/gwrthrych neu leoliad (e.e. motiff Darth Vader yn Star Wars).
Isgerddoriaeth	Cerddoriaeth sy'n chwarae o dan y deialog.
Graddfaol	Alaw sy'n dilyn nodau graddfa.
Triadol	Alaw sy'n symud o amgylch nodau triad.
Ffanffer	Alaw fer sy'n aml yn cael ei chwarae gan offerynnau pres, i gyhoeddi rhywun/rhywbeth pwysig; yn seiliedig ar drawiau cord.
Nodyn pedal	Nodyn hir, cynaledig, fel arfer yn y nodau bas/is.
Ostinato/riff	Patrwm byr wedi'i ailadrodd.
Cysylltiol	Mae'r alaw yn symud fesul cam.
Digyswllt	Mae'r alaw yn symud gyda neidiau/cyfyngau.
Harmoni cyseiniol	Swinio'n 'dda' gyda'i gilydd.
Harmoni anghyseiniol	Swinio fel gwrthdaro.
Harmoni cromatig	Yn defnyddio llawer o hanner tonau/hapnodau nad ydyn nhw'n y cywair gwreiddiol.
Minimaliaeth	Arddull cerddoriaeth sy'n ailadrodd brawddegau byr sy'n newid yn raddol dros amser.